

COFNODION

Dyddiad 28 Tachwedd 01

Amser 2.00 – 5.30pm

Lleoliad Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

Presenoldeb

Aelodau

Alun Cairns

Chris Chapman

Ron Davies

Mike German

Christine Gwyther (Cadeirydd)

Alison Halford

Brian Hancock

Rhodri Morgan (Y Gweinidog dros
Ddatblygu Economaidd)

Dafydd Wigley

Phil Williams

Etholaeth

Gorllewin De Cymru

Cwm Cynon

Caerffili

Dwyrain De Cymru

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Delyn

Islwyn

Gorllewin Caerdydd

Caernarfon

Dwyrain De Cymru

Swyddogion

Derek Jones

David Pritchard

Emyr Roberts

David Powell

Keith Parsons

Rachael Clancy

Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd,

Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd

Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd

Yr Is-adran Cynllunio Economaidd

EPD2

EPD2

Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Yn bresennol

David Rosser

Cyfarwyddwr, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain
(Cymru)

Ysgrifenyddiaeth

John Grimes
Sian Wilkins

Clerc
Dirprwy Clerc

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth David Davies.

Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth a chan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach.

Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gan roi diweddariad byr ar lafar, yr atodir copi ohono i'w adroddiad ysgrifenedig. Yn y diweddariad cyfeiriodd at y Grwp Gorchwyl a Gorffen yr oedd yn ei sefydlu i edrych ar y Credyd Treth Buddsoddiad Cymunedol arfaethedig. Cytunodd i gylchredeg y Cylch Gorchwyl a rhestr o'r aelodau i Aelodau'r Pwyllgor. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
2. Croesawodd yr Aelodau y cyhoeddiad yn adroddiad cyn gyllidebol y Canghellor ynghylch treth stamp ac yn benodol yr egwyddor a bennodd o ran trin wardiau ar wahân ar gyfer trethiant. Holodd sawl Aelod a ellid cymhwyso'r egwyddor at drethi busnes. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yr egwyddorion yn hollol yr un fath, gan fod treth stamp yn berthnasol i asedau sefydlog. Hefyd, yr oedd ffurfiau eraill o ryddhad rhag trethi yn fwy anodd eu cymhwyso'n ddaearyddol, er ei bod yn gynsail ddefnyddiol o ran amrywiadau cyllidol. Cadarnhaodd y byddid yn ymestyn y credyd treth Ymchwil a Datblygu ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint i gwmnïau mawr. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr Anogaethau Rheoli Menter a grybwyllwyd yn adroddiad y Canghellor yn berthnasol i Loegr yn unig.although there would be 'consequentials' arising from it.
3. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cynnydd a wnaethpwyd ar amrywiadau cyllidol a'r diffyg manylder yn adroddiad y Gweinidog mewn perthynas â'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd y

byddai'n rhoi trafodaeth bellach ar yr agenda ar ôl y Nadolig. Gofynnodd yr Aelodau am wahodd PriceWaterhouse Coopers i fod yn bresennol ar yr un pryd.

[Cam Gweithredu: Y Clerc]

4. Eglurodd y Gweinidog fod amrywiadau cyllidol yn golygu negodiadau teirffordd cymhleth gyda'r Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd. Oherwydd hynny yr oedd yn anodd yn aml egluro pan oedd menter benodol wedi methu ac yn aml yr oedd mwy nag un rheswm am beidio â mynd â menter yn ei blaen. Ychwanegodd y swyddogion fod naw o'r 19 o fentrau a amlinellir yn y cynllun gweithredu wedi eu cytuno neu ar fin cael eu gweithredu. Ynghylch saith menter bellach, yr oedd trafodaethau â'r Trysorlys yn mynd rhangddynt ac yr oedd manylion y Cynllun Rhyddhad rhag Trethi i fusnesau bach yn cael eu hystyried gan y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol.
5. Cyfeiriodd yr Aelodau at gyhoeddiad y Canghellor ynghylch cyllid ychwanegol ar gyfer lechyd a'r canlyniadau a fyddai'n dilyn ar gyfer Cymru a oedd unwaith eto'n codi pryderon ynghylch fformiwla Barnett. Oherwydd y gwariant uwch y pen ar ieuchyd yng Nghymru awgrymwyd y byddai hyn yn golygu y byddai'r Cynulliad yn gorfod dod o hyd i £7.5 miliwn ychwanegol i sicrhau bod y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn derbyn codiadau tebyg o arian ychwanegol, ac ymddangosai'n debygol mai Addysg a Datblygu Economaidd a fyddai ar eu colled yn hyn o beth. Galwodd sawl Aelod am drafodaeth ar y patrymau newidiol mewn gwariant cyhoeddus ac am adolygiad o fformiwla Barnett.
6. Croesawodd yr Aelodau'r Cynllun Gweithredu Cymunedau Dur a gyhoeddwyd gan y Gweinidog. Yr oedd potensial yn y Fframwaith Adfywio De Ddwyrain Cymru cysylltiedig i ddarparu patrwm bras ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor drafod hyn ymhellach yn y dyfodol. Dywedodd y swyddogion y byddai'r cynllun adfywio llawn ar gael yn Rhagfyr. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
7. Holodd un Aelod a fyddai contract Motorola yn arwain at fwy o swyddi yn IQE ond dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhy fuan i allu dweud o ystyried y problemau a oedd wedi effeithio ar y sector uwch-dechnoleg eleni. Cyfeiriodd at y sylwadau gan Aelodau ynghylch y colledion a'r enillion swyddi a geir yn ei adroddiadau i'r Pwyllgor a siarsiodd na ddylid defnyddio'r rhain i gyfrifo enillion/colledion 'clir' dros amser. Dywedodd fod 'corddi' mawr bob amser yn y farchnad swyddi ac nid oedd y manylion yn ei adroddiadau ond yn dal gwybodaeth ar gyfran o'r rhain.
8. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddid yn defnyddio'r £9 miliwn sydd ar gael o dan y Strategaeth Cychwyn Busnesau i feithrin busnesau twf uchel ac y byddai ar gael i'r WDA.
9. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn teimlo bod y Dreth Newid Hinsawdd wedi cael effaith fawr ar swyddi. Dywedodd ei bod yn fwy realistig tybio bod a wnelo'r colledion swyddi a gyhoeddwyd dros y chwe wythnos nesaf yn fwy â chanlyniadau 11 Medi.
10. Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Adroddiad Economaidd Chwarterol oddi wrth y

Gweinidog a'r sylw bod disgwyl i'r DU wneud yn well o ran cynnydd mewn cynnyrch mewnwladol crynswth na rhanbarth yr Ewro. Nodasant, fodd bynnag, mai'r rhagolwg ar gyfer Cymru oedd y byddai'n perfformio cystal â chyfartaledd y DU yn unig. Gan nodi'r barnau croes a geir mewn arolygon diweddar mewn perthynas â Chymru, cadarnhaodd y swyddogion eu bod, wrth gynhyrchu'r adroddiad, wedi ffurfio barn ar sail y rhagolygon o ystod eang o arolygon. Gofynnodd un Aelod iddynt ystyried cynnwys arolwg Prifysgol Bangor. Dywedodd y swyddogion y byddent yn ymchwilio i'r posibilïad ond y gallai fod yn rhy gyfyng i fod o fudd mawr.

11. Nodwyd bod Masnach Cymru Ryngwladol wedi bod yn gadarnhaol iawn, mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ynghylch y sefyllfa allforio yng Nghymru ond ymddangosai fod yr Adroddiad Economaidd Chwarterol yn gwrth-ddweud hynny. Dywedodd y swyddogion eu bod yn teimlo bod sylwadau Masnach Cymru Ryngwladol yn adlewyrchu'r sefyllfa cyn 11 Medi.
12. Ar ddiwedd y cyfarfod dywedodd y Gweinidog fod yr UE wedi cymeradwyo rhaglen Interreg IIIa bellach ac y byddai ganddi gronfa o gyfanswm o €47.6 miliwn. Yr oedd yn fwriad iddi ganolbwyntio ar bobl a datblygu sgiliau a dywedodd yr Aelodau ei bod yn bwysig hybu cynlluniau da.

Eitem 3: Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain

1. Cyflwynodd David Rosser bapur Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain a dynnai sylw at y prif flaenoriaethau a welent er mwyn i fusnesau yng Nghymru fod yn llwyddiannus. Dywedodd fod prif farchnadoedd y byd wedi bod yn arafu am gryn amser cyn 11 Medi, gan gynnwys y farchnad allforio Ewropeaidd. Barn Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain oedd bod economi'r DU yn perfformio'n dda ac ymddangosai'n debygol y byddai'n osgoi dirwasgiad. Dywedodd fod hyder cwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru yn wael. Collwyd llawer o fusnesau drwy'r gyfradd gyfnewid anfanteisiol, er bod gwelliannau mewn cynhyrchiant wedi eu gweithredu dros yr un cyfnod a oedd wedi gwrthbwysu hynny i ryw raddau.
2. Dywedodd fod trafndiaeth a datblygu economaidd yn mynd law yn llaw ac enwodd gysylltiadau ffyrdd a oedd o bwys strategol allweddol. Ymhlith y rhain yr oedd yr A40, yr M4 yng Nghasnewydd a'r cyswllt â Maes Awyr Caerdydd. Ychwanegodd ei bod yn anorfod, os na roddid sylw i'r materion hyn, y byddai tuedd i fusnes symud ar hyd coridor yr M4 i Loegr. Pwysleisiodd mor bwysig oedd canllawiau cynllunio eglur a nododd fod y cyfnod amser a gymerid i wneud penderfyniadau yn gyfyngiad mawr ar ddatblygu economaidd.
3. Yn y drafodaeth, holodd yr Aelodau ynghylch barn Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain bod trafndiaeth yn lifer sylfaenol i gael economi lwyddiannus. Nodwyd bod safbwyntiau croes i'w gilydd bod adeiladu cerbydffyrdd deuol yn sugno datblygiad economaidd o ardal. Teimlai rhai Aelodau nad oedd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain yn rhoi digon o bwyslais ar y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a dywedasant y gallai defnydd priodol o Dechnoleg Gwybodaeth

leihau rhywfaint o'r angen i deithio.

4. Dywedodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain fod cysylltiadau trafnidiaeth da yn holl bwysig i symud nwyddau allan yn gyflym ac yn rhad, gan fod Cymru ar gyrion Ewrop. Cyfeiriasant at yr M4 yng Nghasnewydd fel enghraifft a oedd yn dangos y costau cynyddol o ran cyflogau. Dywedasant hefyd fod amser yn ffactor pwysig wrth sôn am ffyrdd ond bod hyn yr un mor wir am drafnidiaeth awyr ac os na allai pobl gyrraedd neu adael y Maes Awyr yn gyflym y byddent yn defnyddio un arall. Cytunasant fod rhan i'w chwarae gan y sector preifat mewn cyllido ffyrdd.
5. Holodd yr Aelodau am farn Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain mewn perthynas â "chlystyrau artiffisial". Dywedodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, er eu bod yn anghytuno â'r cysyniad o "greu clystyrau artiffisial" eu bod o blaid datblygu clystyrau priodol ond dywedasant y dylai clystyrau ymwneud â chydberthnasau yn hytrach nag adeiladau.
6. Dywedodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain fod cwmnïau yn lleihau maint eu helw er mwyn aros yn gystadleuol a bod gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y seilwaith yn ei le i gynnal y busnesau presennol yng Nghymru a denu busnes newydd.
7. Ar fater cynllunio, ailadroddasant fod y broses penderfyniadau cynllunio yn rhy hir a dywedasant fod Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain wedi cynhyrchu cynllun 10 pwynt mewn perthynas â materion cynllunio y byddent yn ei gylchredeg i'r Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]** Ategasant fod ymchwil a wnaethpwyd ganddynt yn ategu'r farn bod cwmnïau uwch-dechnoleg yn amharod i leoli ar safleoedd maes llwyd, a'i bod yn well ganddynt safleoedd newydd.
8. Ar fater cymorth drwy Drethi Busnes, mynegodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain bryderon ynghylch cyflwyno cynllun gwahanol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r hyn a oedd yn Lloegr, yr Alban neu Iwerddon. Dywedasant y byddent yn falch o gael y cyfle i edrych ar fanylion unrhyw gynllun gyda'r Llywodraeth.
9. Wrth derfynu'r drafodaeth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn cytuno â'r mwyafrif helaeth o'r pwyntiau a wnaethpwyd. Hefyd yr oedd wedi ei galonogi gan yr hyn a ddywedodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain am glystyrau a oedd yn fwy cadarnhaol na'r manylion yn eu papur. Teimlai, fodd bynnag, fod eu barn am y defnydd o safleoedd maes llwyd gan gwmnïau uwch-dechnoleg yn besimistaidd. Ychwanegodd fod ffyrdd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth ond nid oedd wedi ei argyhoeddi mai mynediad ffyrdd o ansawdd uchel oedd yr unig ffactor critigol yn achos meysydd awyr. Nododd fod Maes Awyr Bryste yn tyfu'n gyflymach nag un Caerdydd ond bod mynediad gwael i'r ddau leoliad.

Eitem 4: Cymru ar ei Hennill – Ymatebion i'r Ymghynghoriad

1. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi derbyn 19 o ymatebion, hyd at 'derfyn y chwarae' y diwrnod cynt, i'r ymgyngghoriad terfynol. Derbyniwyd ymatebion pellach ers paratoi'r papur i'r Pwyllgor a chytunodd i adael i'r Aelodau gael adroddiad ysgrifenedig gyda'r ymatebion llawn.

2. Yr oedd yr Aelodau wedi derbyn copïau o rai o'r ymatebion yn uniongyrchol ac yr oeddent felly'n gallu gwneud sylw ar fwy nag a oedd yn y papur.
3. Tynasant sylw at y sylwadau a wnaethpwyd gan sawl grwp amgylcheddol a chan unigolion ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o amwysedd rhwng y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ac o ddatblygu economaidd cynaliadwy. Holodd yr Aelodau a oedd gwerthusiad cynaliadwyedd llawn wedi ei wneud ar y ddogfen ddrafft. Cadarnhaodd y swyddogion fod y tîm "Fforwm ar gyfer y Dyfodol" wedi cael cais i ystyried i ba raddau yr oedd y ddogfen yn cwrdd â'r gofynion o safbwynt datblygu cynaliadwy. Byddid yn gwneud pob ymdrech i gynnwys cynifer â phosibl o'u hargymhellion. Fodd bynnag, nid oedd y dechneg wedi ei pherffeithio'n llwyr a dywedasant y gallai gymryd ychydig o fisoedd i'r ddogfen gael ei gwerthuso'n llawn, ond ei fod yn fwriad gwneud hynny.
4. Dywedodd yr Aelodau fod sawl atebydd yn teimlo nad oedd y targed ynni glân o 10 y cant yn ddigon uchelgeisiol ac awgrymodd un Aelod y dylai Cymru anelu at un a oedd yn agosach i 30 y cant. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r orfodaeth ar gwmnïau trydan i brynu 10 y cant o'u cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy yn gwarantu marchnad benodol. Fodd bynnag, nid oedd sicrwydd y byddai'n bosibl gwerthu ar lefel uwchlaw hynny a byddai'r gost yn ffactor. Dywedodd un Aelod, os byddai cwmni mawr iawn yn ymgymryd i brynu'r cwbl o'i allu ynni adnewyddadwy o Gymru, y gallai hynny fynd ymhellach na'r targed 10 y cant beth bynnag.
5. Yr oedd y Pwyllgor yn bleidiol i gynnwys tai yn lifer economaidd ac awgrymodd yr Aelodau y dylid gwneud mwy o waith yn y maes hwn. Cytunodd y Gweinidog fod hyn yn faes y dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth iddo.
6. Er bod yr adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at effeithiau negyddol ehangu'r UE, fel colli swyddi â thâl isel, teimlwyd nad oedd agweddau cadarnhaol yr ehangu wedi eu gwyntyllu. Cytunodd y Gweinidog y gallesid bod wedi rhoi mwy o sylw i hyn yn yr adroddiad.
7. Mewn perthynas â thargedau rhanbarthol, awgrymwyd y dylai'r Gweinidog ystyried edrych ar "asesiadau anghenion rhanbarthol" y gellid ystyried eu bod yn llai cyfyngol na thargedau. Dywedodd un Aelod fod llawer o gefnogaeth, ar ymweliadau diweddar â phartneriaethau rhanbarthol, i dargedau rhanbarthol.
8. Yr oedd peth pryder o hyd ymysg rhai o'r Aelodau fod diffyg dadansoddi economaidd, cynigion polisi a chanlyniadau cynlluniedig a thargedau yn y strategaeth.
9. Terfynodd y Gweinidog drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr drwy gydol proses y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Dywedodd y swyddogion, mewn perthynas â thargedau, y byddai'r drafft newydd yn canolbwyntio ar y meysydd yr oeddent yn fodlon arnynt, gydag ymrwymiad i ddatblygu'r lleill yn flaenoriaeth. Rhoesant gadarnhad y byddai holl Aelodau'r Cynulliad yn gweld y drafft terfynol cyn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr, yn unol â gweithdrefnau'r Cynulliad.

1. Agorodd y Gweinidog y drafodaeth drwy gyfeirio at yr amcangyfrifon diweddaraf o wariant alldro'r Awdurdod Porthladd ar gyfer 2000-01. Dywedodd ei fod o'r farn bod y bwlch cyffredinol o 2 y cant rhwng yr alldro a'r gyllideb yn rhesymol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig nad oedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn mynd i drafodaeth y dylid ei chynnal yn fwy priodol yn y Pwyllgor Archwilio.
2. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr oedi hir cyn derbyn Cynllun Busnes yr Awdurdod Porthladd. Cyfeiriwyd at drafodaeth y Pwyllor gyda'r Arglwydd Faer ym Mawrth 2000 pan addawyd hyn. Ers hynny, dim ond un ddalen o bapur A4 yr oedd y Pwyllgor wedi ei derbyn ganddo. Cyfeiriwyd at y fersiwn o'r Cynllun a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Porthladd yn Ebrill 2001, a gafodd ei argraffu a'i ddosbarthu wedyn, ond a dynnwyd yn ôl ar unwaith oherwydd problemau argraffu/cynhyrchu. Yr oedd fersiwn diwygiedig wedi ei addo ddau fis ynghynt. Yr oedd yr Aelodau'n meddwl tybed sut y gallai'r Gweinidog gyfiawnhau gwneud taliadau i'r Awdurdod heb gael y Cynllun. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog, er bod yr oedi hir cyn derbyn y Cynllun Busnes terfynol yn destun gofid mawr iddo, fod Llywodraeth Cynlluniad Cymru wedi derbyn yr wybodaeth ar gynlluniau a chyllidebau'r Awdurdod er mwyn cyflawni telerau'r cytundeb Adran 165 gyda hwy.
3. Yn y drafodaeth, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y costau a oedd yn gysylltiedig â 'nodwedd dwr' coeden Nadolig yn y doc hirgrwn ac ai'r Cynulliad a oedd i fod i'w talu. Cyfeiriwyd at drafod TAW a'r arbediad o £3 miliwn dros dair blynedd a addawyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Gwnaethpwyd y pwynt ei bod yn anorod bod gwariant yn ardal Bae Caerdydd yn digwydd ar draul gwariant mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.
4. Ynghylch TAW, dywedodd y swyddogion eu bod wedi bod yn derbyn cyngor cyfreithiol ac ariannol. Nid oedd y mater wedi ei ddatrys yn llwyr eto ond y gobaith oedd y byddai'r gwariant cyffredinol, er hynny, yn aros oddi mewn i'r terfynau uchaf presennol. Ynghylch yr arbedion, dywedodd y swyddogion y byddid yn canfod y rhain oddi mewn i'r cyfrifon ar gyfer Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, y byddid yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl eu cwblhau'n derfynol.
5. Dywedodd y Gweinidog fod cyllideb yr Awdurdod wedi ei phennu ar gyfer cyfnod o bum mlynedd ac na fyddai'r Cynulliad yn cytuno ar newid ond lle'r oedd amlwg bod hyn yn ganlyniad i arbedion, costau ychwanegol neu lithriant. Pwysleisiodd fod y swyddogion yn gwirio ar bob cam fod yr holl elfennau mewn hawliad yn dod o fewn y cytundeb ac ni fyddent yn gwneud taliadau oni bai eu bod yn sicr o hynny. Er hynny, ailadroddodd ei ymrwymiad i dderbyn Cynllun Busnes.
6. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cost cynnal ansawdd y dwr oddi mewn i'r Bae, yr oedd yr amcangyfrifon ar ei gyfer wedi codi o £6 miliwn i £12 miliwn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n darparu nodyn a fyddai'n egluro pam yr oedd hyn wedi digwydd a nododd fod y cynnydd hwn wedi digwydd cyn dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**.
7. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y cyfrifoldeb parhaus a oedd yn dod i ran y

Cynulliad Cenedlaethol i warantu'r costau os byddai llyfogydd ac unrhyw gostau wrth gydymffurfio â deddfwriaeth newydd, Ewropeaidd o bosibl. Nododd y swyddogion fod yr olaf yn ddamcaniaethol, ond nodasant y byddai unrhyw gyfrifoldebau o'r fath wedi dod i ran y Cynulliad hyd yn oed os nad oedd y cyfrifoldeb wedi ei drosglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd.

8. Wrth grynhoi'r drafodaeth, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn disgwyl yn eiddgar am dderbyn Cynllun Busnes yr Awdurdod Porthladd a'r Adroddiad Archwilio, a ddylai daflu goleuni ar lawer iawn o'u pryderon. Dywedodd hefyd ei bod wedi trefnu i Grosvenor Waterside gyflwyno papur i gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr a fyddai'n caniatáu dadl ehangach ar ddatblygu Bae Caerdydd.

Eitem 6 – Llythyr at y Pwyllgor Diwylliant

1. Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy gyfeirio at y drafft a baratowyd ar ôl trafodaeth flaenorol y Pwyllgor ar 16 Tachwedd.
2. Cytunai'r Aelodau fod angen iddo gyflwyno'n gadarnach y rôl y gallai'r iaith ei chwarae mewn cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru i'r byd y tu allan. Gofynasant am gyfeiriad hefyd at yr effeithiau negyddol ar gymunedau Cymraeg o brinder swyddi sydd yn arwain at allfudo.
3. Yr oedd yr Aelodau o'r farn na ddylid cynnwys cyfeiriadau at y costau i fusnes a oedd yn gysylltiedig â'r iaith am nad oedd unrhyw orfodaethau statudol ar fusnesau, heblaw am rai gwasanaethau a oedd yn y sector cyhoeddus o'r blaen. O ganlyniad, mae unrhyw gostau sydd yn gysylltiedig â'r iaith yn codi ar sail ystyriaethau masnachol yn unig. Fodd bynnag, mynegodd rhai Aelodau bryder bod canfyddiadau, er hynny, o gostau ychwanegol ac ofnau y gallent ddeillio o ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Cytunwyd i gyfeirio yn y llythyr at yr angen am ymgynghori manwl os byddai unrhyw ragolwg o orfodi gofynion o'r fath.
4. Nododd yr Aelodau fod y problemau sydd yn codi am fod rhai di-Gymraeg yn symud i Gymru yn deillio i raddau helaeth o'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg yn symud allan oherwydd prinder swyddi a chyfleoedd gyrfa sydd yn addas i'w lefel o addysg a sgiliau. Cytunwyd y dylai llythyr y Pwyllgor roi pwys ar bwysigrwydd creu, neu ail-leoli, mwy o swyddi sector cyhoeddus o ansawdd uchel mewn ardaloedd gwledig fel modd i gadw cymunedau Cymraeg. Nododd yr Aelodau fod yr angen yn ymestyn i bob lefel sgiliau a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ystyried dulliau o ddatganoli cyflogaeth o gwmpas Cymru. Nodasant hefyd fod datblygiad TGCh yn cynnig cyfleoedd i rai mewn cymunedau Cymraeg aros a gweithio yn yr ardaloedd hynny.
5. Cytunodd yr Aelodau y dylid aildrefnu'r themâu sectoraidd oddi mewn i'r llythyr gan roi materion diwylliannol yn gyntaf, a thwristiaeth ar ôl hynny ac wedyn gwasanaethau cyfieithu.
6. Dywedodd y Cadeirydd y byddai hi a'r Clerc yn paratoi drafft diwygiedig o'r llythyr a fyddai'n adlewyrchu barn yr Aelodau i'w gylchredeg ac i gytuno arno, os oedd modd, y tu allan i'r Pwyllgor.

[Cam Gweithredu: Y Clerc/Y Cadeirydd]

Eitem 7: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

1. Ynghylch cofnodion 14 Tachwedd gofynnodd Aelod am newid y cofnodion i gynnwys rhestr o'r pynciau y cytunwyd i'w trafod o dan yr adolygiad ynni.
2. Cytunwyd bod cofnodion 16 Tachwedd yn gofnod cywir.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor